



Beth yw Ymgynghori â'r Gymuned?

Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr i'r Gronfa Gymunedol ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ymgynghori â'r gymuned leol ynglŷn â'u cynigion prosiect. Mae angen i ni weld a chael ein darbwyllo bod y gymuned yn rhoi cefnogaeth lawn i'r prosiectau neu raglenni sy'n cael eu datblygu, a bod cyfleoedd agored i bawb i gymryd rhan.

Bydd unrhyw gais am gyllid ar gyfer prosiect neu ddatblygiad grŵp yn gryfach os yweich cymuned wedi cymryd rhan wrth ddatblygu, dylunio a chynllunio'r prosiect o'r cychwyn cyntaf.

Beth mae 'cymuned' yn ei olygu?

Nid yw cymuned o reidrwydd yn golygu'r gymuned ddaearyddol gyfan yr ydych wedi'ch lleoli ynddi (er y gallai hyn fod yn wir). Gall olygu grŵp o bobl sy'n fuddiolwyr arfaethedig - e.e. pobl ifanc o dan 18 oed, dynion dros 60 oed.

Mae'n bwysig cofio ei fod yn ddefnyddiol weithiau i ymestyn eich canfyddiad *chi* o beth yw 'cymuned'. Er enghraifft:

- Os ydych yn aelod o grŵp celf, efallai y bydd angen i chi gysylltu â phobl y tu hwnt i'r aelodaeth bresennol i sicrhau y gall eraill roi eu barn am beth sy'n cael eu cynnig a'u bod yn cael cyfle i gymryd rhan.
- Os oes gennych grŵp o bobl ifanc yn dod i glwb ieuentid, mae'n bosib na fydd cynnwys nhw mewn gwaith ymgynghori'n ddigonol. Mae'n bosib y bydd ymgynghori'n gyfle perffaith i ymgymryd â gwaith allgymorth i adnabod darpar fuddiolwyr newydd. Efallai y byddai gan bobl ifanc nad ydynt yn aelodau presennol syniadau newydd a fyddai'n arwain at ehangu'r aelodaeth.

Cynnwys eich cymuned?

Mae llawer o ffyrdd o gynnwys eich cymuned yn eich prosiect - mae angen i chi ddod o hyd i'r dulliau sy'n gweithio orau i'ch prosiect chi a'r bobl y mae angen i chi siarad â nhw. Mae angen i'r broses fod yn un ddiddorol sy'n ennyn diddordeb pobl! Mae rhai grwpiau'n dosbarthu holiaduron, mae eraill yn rhedeg diwrnodau hwyl neu grwpiau ffocws. Os ydych eisiau gwneud gwelliannau i'ch pentref gallech chi sefydlu stondin yng nghanol y dref a gofyn i bobl rannu eu syniadau yno. Os oes gennych grŵp o bobl fregus, efallai y gallech gael sgysiaau anffurfiol yn lle - gallech chi gynnwys y teulu neu ofalwyr yn y sgwrs hefyd. Gallai cynnig digwyddiad paned, cacen a chlonc ddod â phobl i mewn - y peth pwysig yw cynnwys pobl mewn ffordd sy'n golygu eich bod yn clywed eu barn.

Pwysigrwydd ymgynghori pwrpasol ac agored

Pan fyddwch yn cychwyn ymgynghoriad, mae angen i gwestiynau fod yn wirioneddol agored yn hytrach nag 'arweiniol'. NID YW gofyn i 40 o bobl 'a hoffech chi gael pwll nofio yn eich parc lleol?' yn ymgynghori pwrpasol ac agored. Na gofyn i grŵp o bobl ifanc 'a hoffech chi gael 10 cyfrifiadur newydd?' ychwaith. Mae angen i chi ofyn i bobl yn rhydd am eu syniadau a'u meddyliau a chroesawu pob cyfraniad. Enghreifftiau o gwestiynau agored fyddai 'Beth yw'r pethau gorau am y gymuned hon? Beth fyddai'n ei wneud hyd yn oed yn well?' neu 'Pa weithgareddau a digwyddiadau hoffech chi weld yn digwydd yma?'

Ar ôl yr ymgynghoriad

Ar ôl i chi gywain meddyliau a syniadau'r gymuned, bydd angen i chi ystyried sut mae'r rhain yn gweddu i nodau eich grŵp a'r gymuned yn gyffredinol. Ydyw'n bosib y byddwch chi'n dyblygu rhywbeth sydd eisoes yn digwydd? Neu a allai eich syniad newydd gydweddu â gweithgaredd sydd eisoes yn ei le? Dim ond trwy ymchwil a chwmpasu ehangach y bydd modd i chi ddechrau cynllunio o ddifri. Ac nid yw eich gwaith o ennyn diddordeb y gymuned yn gorffen yno - dyma rywbeth y byddwch yn ei wneud dros y tymor hir, gan wirio'n ôl a darbwyllo pobl i gymryd rhan.

DS: ni fydd cydymffurfio â'r canllaw hwn yn gwarantu y bydd cais yn llwyddiannus - nid yw ond yn rhoi arwydd o rai elfennau o'n proses asesu a'n meini prawf.

Gwybodaeth, Awgrymiadau, Arweiniad Defnyddiol

- [Cynnwys eich Cymuned](#), Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Yr Alban
- [Pecyn Cymorth Ymgynghori Hawdd](#), Shared Care Scotland
- [Ymgynghori'n Greadigol â'r Gymuned](#), Astudiaethau Achos